Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy. Rich countries should help poorer countries achieve this.

## Article 25

Children who are looked after by their local authority rather than their parents should have their situation reviewed regularly.

## Article 26

The Government should provide extra money for the children of families in need.

## Article 27

Children have a right to a standard of living that is good enough to meet their physical and mental needs. The Government should help families who cannot afford to provide this.

## Article 28

Children have a right to an education. Discipline in schools should respect children's human dignity. Primary education should be free. Wealthy countries should help poorer countries achieve this.

## Article 29

Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

## Article 30

Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

## Article 31

All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

## Article 32

The Government should protect children from work that is dangerous or might harm their health or their education.

## Article 33

The Government should provide ways of protecting children from dangerous drugs.

## Article 34

The Government should protect children from sexual abuse.

## Article 35

The Government should make sure that children are not abducted or sold.

## Article 36

Children should be protected from any activities that could harm their development.

## Article 37

Children who break the law should not be treated cruelly. They should not be put in prison with adults and should be able to keep in contact with their families.

## Article 38

Governments should not allow children under 15 to join the army. Children in war zones should receive special protection.

## Article 39

Children who have been neglected or abused should receive special help to restore their self respect.

## Article 40

Children who are accused of breaking the law should receive legal help. Prison sentences for children should only be used for the most serious offences.

## Article 41

If the laws of a particular country protect children better than the articles of the Convention, then those laws should stay.

## Article 42

The Government should make the Convention known to all parents and children.

For further information on the United Nations Convention on the Rights of the Child please visit: The Welsh Government's UNCRC Website: [www.uncrcletsgetitright.co.uk/](http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/)

Cic - The National Information and Advice Service for Young People [www.ciconline.co.uk/news/](http://www.ciconline.co.uk/news/)





Mick Antoniwn AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)

12 Hydref 2018

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref yn gofyn am esboniad ynghylch pam nad oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar fenthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol, na chrynodeb o'r ymatebion hynny, yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2018, a pham y cyhoeddwyd crynodeb ar ôl gwneud y rheoliadau

Mae cymorth i fyfyrwyr, ar ffurf benthyciad, ar gael o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen gan Weinidogion Cymru i'r myfyrwyr hynny, ymhlith eraill, sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac sy'n dechrau ar raglenni gradd ddoethurol. Gwnaed Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (OS 2018/656) ("y Rheoliadau Benthyciadau") ar 23 Mai 2018 a daethant i rym ar 25 Mehefin 2018.

Daeth y Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Diwygio) (Rhif 3) 2018 (OS 2018/810) ("y Rheoliadau Ad-dalu"), a wnaed ar 2 Gorffennaf 2018, i rym ar 28 Gorffennaf, ac maent yn darparu ar gyfer ad-dalu'r benthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol.

Ymgynghorwyd ar y polisi ar fenthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer ad-dalu'r benthyciadau hynny, rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 2 Mawrth 2018. Roedd y Memorandwm Esboniadol a ddaeth gyda'r Rheoliadau Benthyciadau yn nodi rhestr o randdeiliaid a gafodd wahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad, y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion hynny. Roedd y Memorandwm Esboniadol hwnnw hefyd yn esbonio nad oedd fawr o newid i'r polisi fel ag yr oedd yn y papur ymgynghori.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylai'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Ad-dalu fod wedi manylu mwy ar yr ymgynghoriad, er gwaetha'r cysylltiad agos rhwng y Rheoliadau Benthyciadau a'r Rheoliadau Ad-dalu, a'r ymgynghoriad unigol a gynhaliwyd cyn gwneud y ddwy set o reoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gwnaed y ddwy set o reoliadau (y Rheoliadau Benthyciadau a'r Rheoliadau Ad-dalu) yn ôl amserlen dynn iawn er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth briodol yn ei lle fel bod myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau at radd ddoethurol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018. Roedd cymorth tebyg ar gael gan Lywodraeth y DU i fyfyrwyr sy'n preswyllo yn Lloegr fel arfer. Roedd Llywodraeth Cymru'n ystyried bod sicrhau nad oedd myfyrwyr o Gymru o dan anfantaes yn fater brys. Er bod crynodeb o'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Benthyciadau, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y byddai'n well petai'r crynodeb manwl o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi'n gynt.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education



Mick Antoni AC  
Y Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)

Hydref 2018

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref 2018, yn gofyn am esboniad ynghylch sut mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (SL(5)240) wedi mynd yn fwy hyblyg a sut mae hynny yn cyd-fynd ag ymateb y Llywodraeth nad oes newid o ran polisi na dull cyfrifo, wrth benderfynu ar y swm sy'n ddyledus.

Mae Rheoliad 8 yn diwygio Rheoliad 93 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 drwy ddisodli fformiwla fathemategol a ddefnyddir i gyfrifo swm is y cymorth cynhaliaeth sy'n ddyledus i garcharor yn ystod cyfnodau yn y carchar â geiriad syml. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a wnaed â Rheoliadau 94 a 95. Mae'r rhain, bellach, yn rhoi esboniad syml o sut y caiff cymorth ei gyfrifo os bydd myfyriwr yn absennol o'i gwrs yn hytrach na defnyddio fformiwla fathemategol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi '[t]here is no cost associated with this amendment as the regulation has been made more permissive, but it does not alter the calculation that will be applied to determine entitlement'. Mae hyn yn cadarnhau'n glir nad oes newid yng nghanlyniadau'r broses gyfrifo. Nid yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, sy'n gweithredu'r system cymorth i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru, wedi newid y ffordd y caiff y swm sy'n ddyledus i garcharor ei gyfrifo yn sgil y diwygiad hwn. Defnyddir y gair 'permissive' i adlewyrchu'r newid o fformiwla i eiriad o fewn y cyd-destun clir nad oes newid yn y swm cymorth sy'n ddyledus.

Gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

Yn gywir


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K' and 'W'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education

Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion  
Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[SeneddCLA@assembly.wales](mailto:SeneddCLA@assembly.wales)

16

Hydref 2018

*Annwyl Mick*

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynghylch y Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol). Rwy'n ymddiheuro na chafodd datganiad ei gynnwys o fewn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pam na chafodd yr Offeryn Statudol ei wneud yn ddwyieithog. Fel a nodwyd gennych, maen'n arferol i Lywodraeth Cymru gynnwys yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol; camgymeriad anfwriadol oedd hyn y tro hwn. Byddaf yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn disgwyl gweld yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol.

Rheoliadau cyfansawdd oedd y rhain; a chawsant eu drafftio gan Lywodraeth y DU. Nid yw offerynau statudol cyfansawdd yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, gan na wnaiff y Senedd ystyried offerynau statudol sy'n cael eu drafftio mewn unrhyw iaith ar wahân i Saesneg. Nid oedd felly yn cael ei ystyried yn rhesymol nac yn ymarferol i ddarparu'r offeryn hwn yn y Gymraeg.

*Xn gywir  
Lesley*

**Lesley Griffiths AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Julie James AC  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Llywodraeth Cymru

8 Hydref 2018

Annwyl Julie

## **Newidiadau i Reolau Sefydlog yn ymwneud â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor adran 116C**

Cyfeiriaf at adroddiad y Pwyllgor Busnes ar gynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chraffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 116C o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mewn gohebiaeth flaenorol gyda'r Pwyllgor Busnes, cawsom wybod bod Llywodraeth Cymru yn ei hystyried yn broblem diwygio'r Rheol Sefydlog 25 bresennol, sy'n ymwneud â chraffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o *Ddeddf 2006*. Buasem yn ddiolchgar pe gallem gael esboniad ynghylch pam roedd Llywodraeth Cymru yn ei hystyried yn broblem rhoi Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 116C o *Ddeddf 2006* drwy yr un broses graffu â'r rhai o dan adran 109.

Buasem hefyd yn croesawu esboniad ynghylch pam rydych yn teimlo y dylid cynnwys y weithdrefn newydd yn Rheol Sefydlog 27, yn hytrach na Rheol Sefydlog 25A newydd. Fel yr esboniwyd yn ein llythyr at y Pwyllgor Busnes ar 12 Ebrill 2018, credwn y byddai creu Rheol Sefydlog newydd wedi bod yn ffordd gliriach, fwy trefnus a mwy hygyrch o symud ymlaen.

Rydym yn nodi'r ymrwymïadau a roddodd Llywodraeth Cymru yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ym mharagraff 10. Byddem yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon cwrdd â dim ond y Cadeirydd yn hytrach na'r Pwyllgor cyfan.

O gofio y byddai cyfarfod o'r fath yn dilyn cyfarfod gyda'r Pwyllgor Trysorlys ar y Cyd, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi sut rydych yn bwriadu ein hysbysu ymlaen llaw o bryd y cynhelir y cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor Trysorlys ar y Cyd.



Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw AC**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Mick Antoniw AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

16 Hydref 2018

Annwyl Mick,

### **Newidiadau i Reolau Sefydlog mewn perthynas â Gorchmynion adran 116C yn y Cyfrin Gyngor**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref. Fel y dywedais yn y ddadl ar yr adolygiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 10 Hydref, mae gorchmynion adran 116C yn y Cyfrin Gyngor yn is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol. Fel y nodwyd yn ystod y ddadl gan Dai Lloyd AC, ar ran eich pwyllgor chithau, Rheol Sefydlog 27 yw'r Rheol Sefydlog berthnasol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth. Mae eisoes yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r weithdrefn sydd ei hangen i graffu ar Orchmynion adran 116C. Rydym yn cytuno bod angen i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu, drwy ei weithdrefnau, fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn ystyried mai cynnwys y weithdrefn yn Rheol Sefydlog 27 yw'r dull mwyaf priodol, gan ei fod yn cydgrynhoi'r Rheolau Sefydlog ar gyfer is-ddeddfwriaeth ac yn osgoi dyblygu gweithdrefnau mewn gwahanol Reolau Sefydlog, ac mae o gymorth felly o ran hygyrchedd a thryloywder. Yr wythnos ddiwethaf, cytunodd y Cynulliad ar yr un dull ar gyfer Rheol Sefydlog 27 mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE.

Sefydlwyd Rheol Sefydlog 27 i ymdrin â Gorchmynion adran 109, fel y bodolent o dan y setliad datganoli cyn-2011 – hen Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, neu LCO, y trydydd Cynulliad. Er bod Gorchmynion adran 116C yn ymwneud â datganoli pwerau gwneud trethi newydd i'r Cynulliad, maen nhw'n wahanol i LCO; dim ond ar ôl cynnal cyfnod o negodi ac ymgynghori, ac ar sail consensws rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, y'u cyflwynir. Nid yw'r broses dau gam a ddefnyddir yn achos LCO, lle creffir ar Orchmynion arfaethedig a drafft, yn briodol yn y sefyllfa hon.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud nifer o ymrwymadau ynghylch yr wybodaeth a ddarperir i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod negodi cyn i adran 116C gael ei chyflwyno. Nodir y rhain yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, ac maent yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir ichi ar ran y Pwyllgor. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r sylwadau yn eich llythyr ac yn ystod y ddadl, byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn hapus i ystyried opsiynau eraill i sicrhau bod holl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 26**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

aelodau'r pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, pe byddai hynny o ddefnydd iddynt. Bydd hyn wrth reswm yn cael ei wneud mewn cyd-destun o gyfrinachedd ac yn unol â chysylltiadau rhynglywodraethol.

Mae trafodaethau yn parhau rhwng ein priod swyddogion am drefniadau yn y dyfodol ar gyfer hysbysu pwyllgorau'r Cynulliad am y modd y mae'r peirianwaith cysylltiadau rhynglywodraethol yn gweithredu. Mae'r Llywodraeth yn agored i sefydlu trefniadau priodol. Gallwn gynnwys Pwyllgor Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd yn y broses honno.

Yn olaf, dywedodd Dai Lloyd AC yn ei sylwadau i gloi fod y broses a sefydlwyd gan adran newydd 116C o'r Ddeddf Llywodraeth Cymru yn newydd. Gallaf gadarnhau yr ymrwymiad a wnaed gennyf yn y ddadl y bydd y Llywodraeth yn adolygu'r broses o ddatganoli treth newydd i Gymru gan ystyried profiad.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/ Our Ref: MA - L/HID/0595/18

Lynne Neagle AM  
Chair  
Children, Young People and Education Committee  
[SeneddCYPE@assembly.wales](mailto:SeneddCYPE@assembly.wales)

Mick Antoniw AM  
Chair  
Constitutional and Legislative Affairs Committee  
[SeneddCLA@assembly.wales](mailto:SeneddCLA@assembly.wales)

National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff  
CF99 1NA

17 October 2018

Dear Lynne and Mick

## Childcare Funding (Wales) Bill

In my response to both the Children, Young People and Education and Constitutional and Legislative Affairs committees following stage 1 scrutiny of the Childcare Funding (Wales) Bill, I said I would write again to update the committees in relation to two recommendations.

These are recommendation nine of the Children, Young People and Education Committee report and recommendation four of the Constitutional and Legislative Affairs Committee report, which state the Bill should include a duty on Welsh Ministers to provide the childcare offer.

I also committed to exploring some options in terms of CLAC recommendation three, which makes the case for a provision in the Bill, requiring the Welsh Government to review and repeal the legislation.

I have had an opportunity to consider these recommendations in more detail; the arguments put forward in your reports and to explore the options open to me. I will bring forward a government amendment at stage 3, which will place a duty on Welsh Ministers to provide funding in respect of the provision of childcare for qualifying children of working parents.

The amendment will place a duty on the Welsh Ministers to provide funding for the provision of childcare and enable the detail in respect of the age of the qualifying child and the specified

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



amount of childcare to be set out in regulations. I believe this strikes a reasonable balance between what both committees are seeking to achieve in respect of their recommendations, while respecting the principles of good law making.

I have also considered including provisions that would require the Welsh Government to review and repeal the legislation, should it be enacted and commenced. While there were particular legal reasons for including a sunset section in the Public Health (Minimum Price for Alcohol) Act 2018, a similar provision would not be applicable for this technical Bill.

I have given a series of commitments to regularly and routinely review the effectiveness of the legislation. It is important we have flexibility in the Bill's regulation-making powers to make any necessary adjustments to the legislation, if the evidence and feedback suggest we need to make changes to improve the effectiveness of the scheme.

However, I do accept the point the committee is making about the need for the legislation and the offer to be subject to review at a given point in time. I will therefore bring forward amendments during at Stage 3 to require Welsh Ministers to undertake a review and publish its findings as soon as practicable five years after commencement of the powers in section 1 of the Bill. The findings should provide an excellent basis on which to reflect on the offer and its impact.

I would like to take this opportunity to update the committees on the progress we have made in relation to some of the other commitments in my letters of 17 September.

I am pleased that we have been able to arrange for the independent evaluator to provide a confidential briefing for committee members about the first year of implementation on 24 October. This session has been organised for members of the Children, Young People and Education Committee but I would be pleased to extend an invitation to members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, if they are available to attend.

I hope an initial draft framework administrative scheme will be available for consideration by members of the Children, Young People and Education Committee by 2 November. I also intend to bring forward an integrated impact assessment in relation to the wider childcare offer, including an assessment of the impact on children's rights, in the spring.

In terms of the capital grant programme which we have announced, we have now received the bids and are discussing them in more detail with local authorities. We will be making announcements in the New Year, and as I set out in my response to one of the Children, Young People and Education Committee's recommendations, I would welcome the opportunity to return to the committee to discuss this programme further. I would also be very happy to facilitate visits for committee members to some of the settings funded by Welsh Government programmes.

In the meantime, I look forward to the Bill's Stage 2 committee session on 18 October when we can continue to discuss some of these issues in more detail.

Yours sincerely



**Huw Irranca-Davies AC/AM**

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol  
Minister for Children, Older People and Social Care

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

<b>TEITL</b>	<b>Cyflwyniad i Fil Amaethyddiaeth y DU</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>12 Medi 2018</b>
<b>GAN</b>	<b>Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig</b>

Heddiw, rwy'n cyhoeddi fy mod wedi gofyn i Lywodraeth y DU gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru mewn Bil Amaethyddiaeth sydd wedi'i gyflwyno i Senedd y DU. Mae'r Bil yn sylfaen gyfreithiol i roi cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, ar ôl Brexit, wrth inni bontio i ffwrdd o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Pwerau dros dro yw'r pwerau sy'n cael eu cymryd i Weinidogion Cymru, tan llunio ein deddfwriaeth sylfaenol ein hunain, i gynllunio system ar gyfer Cymru sy'n gweithio dros amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a'n cymunedau. Mae'r darpariaethau ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys mewn Atodlen ar wahân, fel bod modd i unrhyw newidiadau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol am eu gweld i Weinidogion Cymru gael eu gwneud yn rhwyd.

'Brexit a'n Tir' yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cymorth i ffermwyr yn y dyfodol wedi Brexit. Mae ein tir yn rhoi bywoliaeth, yn cynnal cymunedau ac yn creu'r adnoddau naturiol hanfodol rydyn ni i gyd yn dibynnu arnyn nhw. Mae'r bobl sy'n gofalu amdano yn gwneud cyfraniad anferthol i'n gwlad. Rhaid i ni barhau i'w cefnogi. Fodd bynnag, mae angen i'r ffordd yr ydym yn rhoi'r cymorth newid wedi Brexit.

Mae darpariaethau Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth, ar y cyfan, yn adlewyrchu y rhai sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau ariannol newydd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol
- Casglu a rhannu data
- Pwerau i ymyrryd o dan amodau eithriadol yn y farchnad
- Gosod safonau marchnata
- Addasu cyfraith yr UE sydd wedi'i chadw sy'n gysylltiedig â chyllido, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr, gan gynnwys Cynllun Taliad Sylfaenol PAC

Mae nifer fechan o bwerau ychwanegol yn cael eu cymryd yng Nghymru. Yn ogystal â nifer fechan o wahaniaethau technegol, mae ein pwerau hefyd yn cynnwys pwyslais ar gefnogi cymunedau a busnesau gwledig sy'n rhan o gadwyni cyflenwi.

Ar y cyfan, mae'r rhain yn bwerau galluogi sy'n darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru, er mwyn iddynt lunio rheoliadau penodol i Gymru i Lywodraeth Cymru graffu arnynt. Ni fydd y Tudalen y pecyn 39

rheoliadau yn cael eu llunio tan i'r broses o ddatblygu polisiâu ddod i ben. Yn "Brexit a'n Tir" bu inni ymrwymo i gyflwyno papur gwyn yn ystod gwanwyn 2019.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin yn rhoi amlinelliad inni o sut y bydd Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig yn cydweithio i greu llyfr statud sy'n gweithio'n iawn ledled y DU pan fyddwn yn gadael yr UE. Cyflwyno y Bil Amaethyddiaeth yw'r prawf cyntaf o'r egwyddorion yn y Cytundeb cydweithio, cydweithredu a pharch i ddatganoli.

Mae'r datganiad ar y cyd heddiw rhwng y DU a Llywodraeth Cymru ar gymorth i amaethyddiaeth yn dangos y cysylltiad sylweddol a'r cydweithio sy'n digwydd i sefydlu fframwaith gyffredin o fewn y DU er mwyn cefnogi amaethyddiaeth. Mae'r datganiad yn datgan yn glir y bydd rhan fwyaf o'r fframwaith hwn yn cael ei reoli drwy gydweithio rhynglywodraethol ar wahân i ddeddfwriaeth. O ganlyniad, ni fydd Cymru yn cael ei chyfyngu wrth greu cynlluniau newydd a bydd yn gallu gweithredu mewn dull sydd orau i Gymru.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil ar y cyfan fel y mae wedi'i ddrafftio, mae dau fater sydd heb eu datrys yn ein barn ni: yn gyntaf, darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Amaethyddiaeth; ac, yn ail, y Lefi Cig Coch.

Mae rheoli Cytundeb y DU ar Amaethyddiaeth yn Sefydliad Masnach y Byd yn fater y mae Llywodraeth y DU yn credu sydd wedi'i gadw yn ôl. O ran y gyfraith, nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn pob agwedd ar y cymal fel mater a gedwir yn ôl, a ph'un bynnag, mae perthynas gref ac amlwg rhwng y pwerau WTO a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau cytundeb pwysig gan Lywodraeth y DU i ymrwymo yn y Senedd i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar reoliadau sy'n gysylltiedig â'r WTO. Rydym hefyd wedi cytuno i ddod o hyd i broses ar gyfer sut y bydd rheoliadau o'r fath yn cael eu llunio. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ymgynghori yn annigonol o ystyried pwysigrwydd y mater hwn. Byddwn felly yn parhau i weithio tuag at gytundeb sy'n sicrhau bod cysylltiad priodol gyda safbwyntiau Gweinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill ac ystyriaeth ohonynt.

Ar y Lefi Cig Coch, mae'n siomedigaeth nad yw pwerau sy'n gysylltiedig ag ail-ddosbarthu y Lefi Cig Coch ar wyneb y Bil wrth ei gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl diwygiad gan Lywodraeth y DU i gywiro hyn cyn gynted â phosib. Mae'n hollbwysig bod y diwydiant cig coch yn gallu cael mynediad i gyllid i baratoi yn y ffordd orau ar gyfer cyfleoedd Brexit ac i ymateb i'r newid anochel. O ystyried bod angen newid deddfwriaethol i fod yn sail i unrhyw ddulliau y cytunwyd arnynt i ddod o hyd i ateb yn y dyfodol, mae'r Bil Amaethyddiaeth - y cyntaf i gael ei gyflwyno yn y Senedd am rai degawdau - yn amlwg yn gyfle i ddatrys y mater hwn.

Yn gyffredinol, mae cyflwyno'r Bil Amaethyddiaeth yn gam pwysig yn ein proses o bontio i system newydd o roi cymorth i ffermwyr. Mae'n rhoi pwerau a hyblygrwydd newydd sylweddol i Gymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y pryderon eraill ac i gynnig cyngor i'r Cynulliad ar gydsyniad deddfwriaethol yng ngoleuni'r gwaith hwn.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

## Y Diweddaraf am y Fframwaith Amaethyddol - Medi 2018

### Datganiad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Gan fod amaethyddiaeth yn faes datganoledig, caiff pob gweinyddiaeth yn y Deyrnas Unedig (DU) gyfle i ddatblygu polisi sy'n addas i'w hamgylchiadau ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar wahân ar bolisïau newydd i gymryd lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y naill yn Lloegr a'r llall yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur polisi o'r enw y 'Framework Analysis' ym mis Mawrth 2018. Mae'r papur yn rhestru 153 o feysydd lle mae cyfraith yr UE yn gorgyffwrdd â chymwyseddau datganoledig. Dyma lle bydd gofyn i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig weithio gyda'i gilydd i benderfynu a ddylid mynd i'r afael â'r meysydd hynny ar lefel y DU neu Brydeinig. Yn sail i'r cyfan yw'r egwyddorion y cytunwyd amyn nhw yn JMC(EN) ym mis Hydref 2017. Nodwyd yn y papur hefyd 24 o feysydd polisi y byddai angen trafodaeth fanylach amyn nhw i weld a oes angen fframwaith deddfwriaethol cyffredin amyn nhw, yn gyfan neu yn rhannol. Mae'r rhestr honno'n cynnwys "cymorth amaethyddol".

Wrth inni adael yr UE a'r PAC, rydyn ni am i'n ffermwyr a'r rheini sydd â diddordeb mewn amaeth ddeall ein bod wedi cydweithio'n glos â'n gilydd ac y bydd y cydweithio hwnnw'n parhau. Rydyn ni am sicrhau canlyniadau gwell i'n diwydiant ffermio, a sbarduno trafod agored a thryloyw wrth inni ddatblygu'n cynigion.

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn rhoi pwerau newydd i'r ddwy weinyddiaeth allu rhoi cynlluniau newydd ar waith, yn ogystal ag estyn rhai darpariaethau i Ogledd Iwerddon.<sup>1</sup> Fodd bynnag, nid oes fframwaith deddfwriaethol yn y Bil ar gyfer y pwerau hyn. Y rheswm am hynny yw bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r farn ar sail eu trafodaethau hyd yma, bod modd ymdrin yn briodol â mwyafrif llethol y meysydd polisi trwy drefniadau anneddfwriaethol a rhynglywodraethol.

Fel rhan o'r broses hon, rydyn ni'n cynnig datblygu fframwaith gweinyddol ar gyfer cydlynu'r gwariant ar gymorth amaethyddol a newidiadau i safonau marchnata. Amcan hynny yw sicrhau y ceir cydlynu a thrafod effeithiol rhwng y gweinyddiaethau ynghylch sut y gallai newid deddfwriaeth yn un rhan o'r DU effeithio ar y rhannau eraill. Bydd cysylltiad clos rhwng y fframwaith hwn a'r fframweithiau cyffredin eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer meysydd polisi eraill yn y DU. Ceir meysydd eraill o fewn "Cymorth Amaethyddol" rydyn ni'n disgwyl gweithio amyn nhw wrth i'r Bil Amaethyddiaeth fynd trwy Senedd y DU. Yn eu plith y mae ymyrryd yn y farchnad a chasglu a rhannu data. Mae gan fframweithiau eraill ymhlith y 24 a nodwyd gysylltiad ag amaeth - ffermio organig, rhyddhau GMOs i'r amgylchedd, swodechnoleg a rheoliadau gwrtait - ac mae hwythau hefyd yn destun trafod. Ein hamcan yw cytuno ar yr holl feysydd hyn fel bod gennym fframweithiau gorffenedig erbyn y Cyfnod Gweithredu (Rhagfyr 2020).

Rydyn ni hefyd yn trafod y trefniadau ar gyfer daliadau trawsffiniol, sy'n berthnasol i nifer fawr o ffermydd ar hyd ffin Cymru a Lloegr. Rydyn ni'n sylweddoli bod ffermwyr sy'n rhychwantu ffiniau ac sydd â daliadau mwn gweinyddiaeth arall am fod yn siŵr y gall eu busnesau weithredu mor esmwyth â phosib. Ein bwriad yn hyn o beth yw lleihau'r fiwrocratiaeth a rhoi eglurder i fusnesau.

Uchelgais Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o hyd yw cael hyd i atebion ar lefel y DU lle gwelir bod angen hynny. Rydyn ni'n llawn ddisgwyl i'r cydweithredu clos barhau rhyngom ag Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA) ac â Llywodraeth yr Alban dros y 18 mis nesaf i gytuno ar fframweithiau gweinyddol fydd yn pennu'r gwaith sydd i'w wneud ar amaethyddiaeth yn y dyfodol a sut y byddwn yn ei gydlynu.

Fel rhan o'r broses honno, byddwn yn croesawu barn Senedd y DU, y deddfwrfeydd datganoledig a rhanddeiliaid eraill ar y cynigion hyn.

---

<sup>i</sup> Gan nad oes Gweinidogion yng Ngogledd Iwerddon i wneud penderfyniadau ynghylch eu polisi amaeth, bydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ceisio cadw'r status quo gyhyd ag y medrir tan y bydd modd creu polisi newydd. Rhaid wrth ofal rhag analluogi neu ffrwyno gallu Gweinidog neu Lywodraeth neu Gynulliad Gogledd Iwerddon i benderfynu beth sy'n briodol i sector bwyd amaeth Gogledd Iwerddon. Yr egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u defnyddio wrth ystyried estyn cymalau i Ogledd Iwerddon yw:

- sicrhau bod sail gyfreithiol i barhau i dalu'r set gyfredol o daliadau cymorth amaethyddol (ac opsiynau) ar ôl gadael yr UE;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon ddigon o hyblygrwydd i ddatblygu'i pholisi amaeth yn y dyfodol sy'n gyson â'r egwyddorion y cytunwyd arnyn nhw gan JMC(EN), gan gynnwys gweithrediad Marchnad Fewnol y DU; a
- sicrhau nad yw'r Bil Amaethyddiaeth yn ffrwyno gallu Llywodraeth Gogledd Iwerddon rhag parhau â'r cynlluniau a'r opsiynau sydd ar gael nawr o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig a Chorff y Farchnad Gyffredin ac a ddarperir gan ddeddfwriaeth yr UE (sy'n bodoli ac wedi'i chadw), hynny am ba hyd bynnag y gwêl Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn dda.

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y Bil Amaethyddiaeth

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad hwnnw, os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 12 Medi 2018. Gellir gweld y Bil yn:

#### [Bill documents - Agriculture Bill 2017-19 – UK Parliament](#)

#### **Amcan(ion) Polisi**

3. Yr Amcanion polisi a nodir gan Lywodraeth y DU yw darparu system newydd, ar gyfer Lloegr, o dalu “arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus” i ffermwyr – sef yn bennaf eu gwaith i wella a gwarchod yr amgylchedd – a dirwyn i ben y Taliadau Uniongyrchol o dan reolau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

#### **Crynodeb o’r Bil**

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn darparu’r fframwaith cyfreithiol i’r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â’r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (PAC) a sefydlu system newydd, yn Lloegr, yn seiliedig ar arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.
6. Yn ogystal, ar gais Llywodraeth Cymru, mae’r Bil yn darparu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

#### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae cymal 26 yn rhoi pwerau i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau ynghylch sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â’i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Gall y Rheoliadau hyn gynnwys darpariaeth ynghylch dosbarthiad cymorth domestig at ddibenion y Cytundeb ar Amaethyddiaeth; darpariaeth ynghylch lefelau’r cymorth domestig; a darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau datganoledig

ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau cymal 26 oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan eu bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny, sef y Cytundeb ar Amaethyddiaeth.

8. Mae cymal 27 yn cyflwyno Atodlen 3 o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru. Mae Atodlen 3 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n debyg, yn fras, i'r pwerau hynny a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Rhannau 1-5 o'r Bil. Nid yw Atodlen 3 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 21 (pŵer i atgynhyrchu addasiadau o dan adran 20 ar gyfer y sector gwin), ac nid yw ychwaith yn cynnwys darpariaeth ynghylch pwerau i addasu cynlluniau cymorth i sefydliadau cynhyrchwyr ffrwythau a llysiau yng Nghymru, oherwydd nid oes unrhyw sefydliadau o'r fath yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Atodlen 3 yn cynnwys dibenion ychwanegol y caniateir i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol iddynt, a cheir nifer fach o wahaniaethau technegol i adlewyrchu'r taliadau ailddosbarthu a wneir o dan gynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru.

#### Atodlen 3, Rhan 1: Pwerau newydd o ran cymorth ariannol.

Mae Rhan 1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol newydd i gynlluniau yn y dyfodol. Mae pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru yn eu galluogi i roi cymorth ariannol ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, chynorthwyo busnesau neu gymunedau mewn ardaloedd gwledig a chefnogi pobl sy'n ymwneud â chynhyrchu, prosesu, marchnata neu ddosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o weithgarwch amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth.

#### Atodlen 3, Rhan 2: Cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r UE.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru, ar ôl ymadael â'r UE, i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfnod pontio amaethyddol i Gymru y gellir ei ymestyn drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

#### Atodlen 3, Rhan 3: Casglu a rhannu data

Mae Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gasglu data o'r rheini o fewn y gadwyn gyflenwi bwyd amaeth, neu o'r rheini sydd â chysylltiad agos â'r gadwyn honno, a rhannu'r data hynny. Er enghraifft, bydd y data a gesglir ac a rennir o dan y darpariaethau hyn yn helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cynhyrchiant, yn helpu cynhyrchwyr i reoli risgiau ac anwadalrwydd y farchnad a chynorthwyo o ran iechyd ac olrheinadwyedd anifeiliaid a phlanhigion.



### Atodlen 3, Rhan 4: Ymyrryd yn y Marchnadoedd Amaethyddol

Mae Rhan 4 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgan cyfnod o amodau eithriadol yn y farchnad, ac, yn ystod y cyfnod y mae'r datganiad yn cael effaith, i roi cymorth ariannol, neu i gytuno i roi cymorth ariannol, i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad yn cael effaith andwyol ar eu hincymau, neu'n debygol o gael effaith o'r fath. Mae Rhan 4 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud y defnydd hwnnw y maent yn ystyried yn briodol o unrhyw bwerau sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n darparu ar gyfer gweithredu ymyrraeth gyhoeddus a chymorth i systemau storio preifat mewn ymateb i'r datganiad.

### Atodlen 3, Rhan 5: Safonau marchnata a dosbarthu carcassau

Bydd Rhan 5 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau, drwy reoliadau, sy'n ymwneud â safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion a farchnetir yng Nghymru a dosbarthu carcassau gan ladd-dai yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ddiwygio neu ddirymu'r safonau marchnata cyfredol a'r rheolau dosbarthu carcassau cyfredol fel y'u nodir yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac mewn deddfwriaeth ddomestig, yn ogystal â'r hyblygrwydd i gyflwyno safonau a rheolau newydd a gaiff eu teilwra i fod yn addas ar gyfer y sectorau amaethyddol domestig.

### **Y Casgliadau ynghylch Cydsyniad Cymal 27 ac Atodlen 3**

9. Mae angen cydsyniad ar gyfer yr holl ddarpariaethau yng nghymal 27 ac Atodlen 3 oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl gan eu bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny.

### **Darpariaethau Terfynol**

10. Mae Rhan 9 o'r Bil yn darparu ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol y gellid eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil.
11. Mae cymal 29 (1), (3), (4), (5), (6)(b), (7)(b), (8) a (9) yn gymwys o ran Cymru ac yn nodi sut y gellir arfer y pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Bil.
12. Mae cymal 30 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r Bil.
13. Mae cymal 31 yn cyflwyno Atodlen 5 i'r Bil sy'n gwneud darpariaeth i ddiwygio Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd cynhyrchion amaethyddol.

14. Mae cymal 32 yn gwneud darpariaeth i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, i wneud diwygiadau (a fyddai'n ddarpariaethau canlyniadol, darpariaethau atodol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Bil) i ddeddfwriaeth sylfaenol, deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu is-ddeddfwriaeth.
15. Mae cymal 34 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhychwant cymalau yn y Bil, a rhychwant yr Atodlenni iddo, i gynnwys y cymalau a'r Atodlenni sy'n gymwys o ran Cymru.
16. Mae cymal 35 yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn cymalau yn y Bil, a'r Atodlenni iddo, i gynnwys y cymalau a'r Atodlenni sy'n gymwys o ran Cymru.
17. Mae cymal 36 yn gwneud darpariaeth ynghylch enw byr y Bil, sef yr enw a ddefnyddir i gyfeirio ato mewn deddfwriaeth arall.
18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau cymalau 29, 30, 31, 32, 34, 35 a 36 o'r Bil, ac Atodlen 5 iddo, gan eu bod yn ymwneud â Chymru, ac yn gymwys o ran Cymru, oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan eu bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny.

#### **Pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth**

19. Yn Atodlen 3, rhoddir nifer o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Nodir y pwerau hyn, ynghyd â'r gweithdrefnau deddfwriaethol perthnasol, yn yr Atodiad i'r Memorandwm hwn. Mae i 'gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' a 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yr un ystyr ag a roddir i 'affirmative resolution procedure' a 'negative resolution procedure' yng nghymalau 29(6)(b) a (7)(b) o'r Bil yn y drefn honno gan fod yr ymadroddion hynny yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

#### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth**

20. Bwriedir i'r pwerau sy'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fod yn rhai trosiannol, hyd nes y gellir cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, i gynllunio system 'A Wnaed yng Nghymru' sy'n gweithio ar gyfer amaethyddiaeth Cymru, diwydiannau gwledig a'n cymunedau. Mae angen y pwerau hynny er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i wneud taliadau i reolwyr tir, cadwyni cyflenwi cysylltiedig, busnesau gwledig eraill a sefydliadau gwledig eraill yng Nghymru o dan y cynlluniau PAC Colofn 1 a Cholofn 2 cyfredol o 2020, er mwyn gwneud newidiadau i'r cynlluniau cyfredol a hwyluso'r cyfnod pontio. Ein bwriad yw cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn ystod y tymor hwn.

